
**PE BUASAI'R** ddamwain a fu ar afon Tywi pan aeth y tren tros y bont i'r llifddyfroedd gan golli pedwar o bobol yn stormydd mis Hydref eleni wedi digwydd yn y ganrif ddiwethaf, buasai'r baledwyr wrthi yn canu eu baledi am y trychineb yn y ffeiriau.

Felly y bu hi yn 1866. Yr oedd y tren yn dychwelyd "o Gymanfa fawr Drimisol y Trefnyddion Calfinaidd" yng Nghaernarfon ac yn anelu at



GALARUS COFFADWRIAETH

AM Y

Ddamwain Ddychrynllyd

Afonwen ar y chweched o Fedi pan ddaeth oddi ar y cledrau yng Nglandwyfach newydd basio gorsaf Bryncir. Fe drodd yn angau i chwech gan anafu llaweroedd.

Sgyrsion arbennig oedd hi gan nad oedd y lein wedi ei hagor i'r cyhoedd hyd Fedi 2, 1867 ac nid oedd eto wedi ei swyddogol archwilio gan y Bwrdd Masnach.

Ymddengys mai achos y ddamwain oedd y ffaith nad oedd y pwyntiau yn eu man priodol ac ni fedrai tren beidio a gadael ei phriodol gwrs. Ond mewn baled ddeuddeg pennill fe geir adroddiad manwl iawn o bob peth oedd yn hysbys gan E.O.G. (Ieuan o Eifion).

Wele dri phennill o'r stori, sy'n crynhoi'r trychineb a laddodd bump yn y fan a'r lle, ac un – Elizabeth Evans o Benrhyndeudraeth wedi marw'n ddiweddarach.

**Hwy aethant yn gysurus**
**Am rai milldiroedd maith,**
**Heb feddwl am un ddamwain**
**Cyn diben pen y daith.**
**'Nol cyrhaedd i Glanddwyfach,**
**Gwnaent aros yno'n siwr,**
**Lle'r oedd cyfleustra i borthi**
**Y peiriant gyda dw'r.**

**Am ddau can'llath ym mhellach,**
**'Nol hanes gwn yn wir,**
**Hwy aethant yn bur araf,**
**Er pasio'r *points* yn glir;**
**A'r peiriant yno'u rhywfodd**
**O'r llinell aeth i ffwrdd,**
**Pa ddyn a all ddysgrifio**
**Y gofid ddaeth i'w cwrdd?**

**Roedd ysgrechfeydd arswydus**
**I'w clywed gan bob gradd,**
**A phump o'r teithwyr, druain,**
**Yn gelain wedi'u lladd;**
**O'r rhai'n 'roedd dau o ddynion,**
**A thair o ferched mwyn,**
**A phedwar wedi'u clwyfo,**
**Mae'n drwm i wrando 'u cwyn.**

## AR WERTH

*Dwyfol Gân Dante, cyfieithiad Daniel Rees. Darluniau J. Kelt Edwards. Swyddfa'r Herald, Caernarfon. MCMIII £12 neu'r cynnig agosaf.*
*John Roberts,*
*Erw Wen,*
*Groeslon,*
*Caernarfon.*
*Tel: Llanwnda 830505*

*"Y Tylwyth Teg", gan Hugh Evans, Lerpwl. Gwasg y Brython, 1935. Copi rhif 9 o argraffiad cyfyngedig o tua 60 o gopïau a argraffwyd ar felwm ac a rwymwyd yn arbennig;*
*"Y Cerddor", 1902-1904.*
*Cysylltwch ag Aberystwyth 820082.*

*"Cynfeirdd Lleyn 1500-1800", Myrddin Fardd, 1905; "Meddygon Esgyrn Môn", H. Hughes-Roberts, 1935; "Deuddeg o Feirdd y Berwyn", D.D. Williams a Robert Griffiths, 1910;"Oll Synnwyr Pen Kembero Ygyd", 1902; "Yr Areithiau Pros", Gwenallt, 1934; "Prif-feirdd Eifionydd", E.D. Rowlands, (1914); "Kynniver Llith a Barn", 1931; "An Introduction to Early Welsh", J. Strachan, 1909.*
*Geraint Davies, Glanafon, Trefdraeth, Dyfed SA42 0TQ.*
*Ffôn: (0239) 820205.*

## YN EISIAU

*Dwy gyfrol o waith Rhiannon Davies Jones, sef "Fy Hen Lyfr Cownt" (Gwasg Aberystwyth, 1961) a "Lleian Llan Llŷr" (Gwasg y March Gwyn 1965 a 1966).*
*Richard Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed. Ffôn: Aberystwyth 828102.*

*Oriawr boced, allwedd oriawr boced, 'Watch case papers'. Unrhyw un o'r uchod a werthwyd yn hen siopau 'Portmadoc'. Hefyd unrhyw wybodaeth ddiddorol amdanynt a'r gwerthwyr megis R. Bonner Thomas, 4 Bank Place; J.J. Reese, High St.; J.J. Thomas, Pretoria House neu unrhyw werthwyr eraill. Ffôn Porthmadog (0766) 513516.*

*"Hunangofiant Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon" (1892)*

*Cylchgrawn "Llafar Gwlad" — Rhif 1. (1983)*
*Tel. (0766) 810 501*



## CANRIF Y FFONOGRAFF

### Gan IOAN MAI

MAE I'R ffonograff hon, fel pob un arall o'i bath gryn arwyddocâd ar ddiwedd blwyddyn fel hyn, ac mae gan ei pherchen, William Owen Jones, o gylch Benllech, Llŷn, gryn afael ynddi.

Eleni mae hi'n gan mlynedd er pan gyhoeddodd Edison y ddyfais ryfeddol hon. Ef, fel y cofiwch oedd y cyntaf i atgynhyrchu'r llais dynol. Yn rhyfedd iawn tua'r un amser roedd yr un math o declyn i atgynhyrchu llais ym meddwl a dychymyg bardd Ffrengig, Charles Cras, oedd yn ffisegwr yn ogystal.

Ond nid ffonograff yn unig sydd ym meddiant y gŵr o Lŷn, ond sylindrau hefyd mewn bocsus hen ffasiwn fel y gwelwch ar y bwrdd. Ar un o'r rhain y clywodd Edison atgynhyrchu llais am y tro cyntaf erioed, a hwnnw'n adrodd 'Mary had a little lamb'. Pam hynny ys gwn i? O drymder gaeaf 'does dim tebyg i addewid bref oenig yn y Gwanwyn, ac mae'n siŵr fod clywed atgynhyrchu llais o fudandod y canrifoedd yn rhywbeth ysgytiol iawn.

Fy mraint innau ymysg 'holl leisiau'r greadigaeth' y medrir eu galw'n ôl o ddyddiau Edison, sydd yng nghadw gan William o Benllech, oedd gwrando ar yr ebychiadau cyntaf hynny gan Edison ei hunan. Ac os byw ac iach mi ddown heibio eto'r flwyddyn nesa' – mi fydd honno yn flwyddyn y gramaffon yn bydd?

## ATHAN FARDD A'I LUNIAU

UN O gymeriadau lliwgar y ganrif ddiwethaf oedd John Athanasius Jones, neu Athan Fardd. Ganwyd ef yn Llangyfelach ym 1840, ond symudodd yn ei ugeiniau cynnar i fyw i Gasnewydd. Yno yn Awst 1866 yr ymbriododd â gweddw ifanc o swydd Henffordd o'r enw Hannah Rogerson. Roedd hi eisoes wedi sefydlu stiwdio ffotograffig yn y dre, ac aeth Athan yntau ati i ddysgu tynnu lluniau. Ond er mawr ofid i'w gwsmeriaid, treuliai Athan y rhan fwyaf o'i amser yn trin a thrafod llenyddiaeth gyda'i gyfeillion llengar, ac un yn arbennig, sef Islwyn. Ymgollai Athan gymaint ym myd barddoniaeth fel yr anghofiai yn llwyr am anghenion ei gwsmeriaid.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, mewn cyfres o erthyglau yn **Y Gweithiwr Cymreig**, y mae Athan yn holi am rai o'r lluniau a dynnwyd ganddo, oherwydd iddo eu rhoi i gyd i hwn a'r llall.

Yr un yw fy apêl innau. Nid oes yr un o'i luniau ar gael yng nghasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol, ond gwyddom iddo dynnu lluniau nifer fawr o wŷr amlwg y ganrif ddiwethaf yng Nghymru, yn feirdd a gweinidogion. Tybed a oes un o ddarllenwyr **Y Casglwr** yn gwybod rhywbeth am hynt a helynt ei gynnyrch ffotograffig?

Hefin Llwyd
Maesmawr,
Talybont,
Dyfed.

## RHODDION

**– a mawr ddiolch**

£10: T.C. Griffith, Llundain; Siop Lyfrau'r Hen Bost; G.H. Griffith, Casnewydd.
£8: G. Pennant, Pontypridd.
£5: Guto Roberts, Clynnog; A. Anwyl, Talwrn; Teulu Saethon, Mynytho; G.L. Davies, Caerdydd.
£4: E.R. Morris, Llanidloes.
£3: R. Evans, Caer; A. Williams, Llandygai; M. Owen, Llundain; Parch E.W. Jones, Llangefni; I. Jones, Caerdydd; Rh. Williams, Caerdydd; W.R. Howells, Cwmllynfell.
£2: M.G. Jones, Tregarth; E.E. Jones, Penygroes; J. Young, Cricieth; W. Williams, Caergybi; D.E. Davies, Caerdydd; G. Jones, Gwauncaegurwen; T. Roberts, Edern.
£1: Mrs M. Jones, Llangeitho; P.V. Davies, Conwy; A. Roberts, Caernarfon; R.M. Owen, Dinbych; D. Williams, Llangefni; A. Jones, Penisarwaun; Rhys ap Rhisiart, Garndolbenmaen; O. Llywelyn, Llanrug; J. Jones, Clynnog.

## Arbennig i gofio'r Diwygiad

PENDERFYNODD Cyhoeddiadau Modern fentro cyhoeddi **dau argraffiad cyfyngedig** o'r gyfrol **Deuddeg o Ddiwygwyr Protestanaidd** erbyn Steddfod Casenwydd yn 1988 mewn ffydd y cawn ddigon o danysgrifwyr, ac yn meddwl a fyddai rhai o ddarllenwyr y Casglwr â diddordeb.

Dyma'r cynnig. Bwriadwn argraffu 100 copi (180 tudalen a chlawr caled) am £12.50 a 150 copi (180 tudalen a chlawr meddal) am £10.00 **Anfonir y gyfrol heb dâl cludiant i chwi ond disgwyliwn ymateb pendant a'r tâl o £10.00 neu £12.50 erbyn 1 Chwefror 1988.** Argreffir eich enw a'ch cyfeiriad yn Rhestr y Tanysgrifwyr a bwriadwn rifo y cyfrolau arbennig hyn.

D. Ben Rees,
32 Garth Drive,
Lerpwl L18 6HW.